

A



Capel Moriah - ailgodwyd y capel i'r Methodistiaid Calfinaidd yn 1913. Mae iddo fynedfa urddasol yn y dull Art

Nouveau a gwaith terracotta a ffenestri lliw ar y blaen. Mae'n adeilad Gradd II rhestredig.

Moriah Chapel - rebuilt in 1913, this Calvinist Methodist chapel has an imposing pedimented entrance in Art Nouveau style, faced with buff terracotta and stained glass windows, now grade II listed.

B

Lower Wood - dyma safle gweryll swyddogion y LLu Awyr yn yr Ail Ryfel Byd. Roedd Llanbedr a'i faes awyr yn ganolfan bwysig yn yr amser yma. Yn ddiweddarach, troewyd y safle yn bentref crefftau ac mae yn awr wedi'i ail ddatblygu yn barc bythynod gwyliau.



Lower Wood - this was the site of an RAF officer's camp in the Second World War when Llanbedr and its aerodrome was an important R & R centre. Later it became a craft village and has now been redeveloped as a holiday chalet park.

C

Coed Hafod y Bryn - o'r gamfa ger y ffordd, mae rhwydwaith o lwybrau trwy'r coed sydd wedi'i glirio a'i wella gan wirfoddolwyr lleol. Gweler y panel gwybodaeth ger y giat.

Coed Hafod y Bryn - from the stile above the road, a network of paths has been cleared by local volunteers. See the information board by the gate.

D

Porfa Fras - dyma lwyfandir uchel lle mae ffermydd mynydd yn pori defaid. Mae nifer o'r hen adeiladau fferm wedi'i trosi yn anneddau erbyn hyn. I'r gorllewin mae Harbwr Pensarn (gweler Llwybr 1). I'r Dwyrain, gweler Moelfre sy'n codi i uchder o 589m.


Rough Pasture - mountain farms graze sheep on this high plateau. Many of the old farm buildings have been converted into dwellings. To the west can be seen Pensarn Harbour (see Walk 1). To the east, Moelfre rises to 589m.

E

Coed Aber Artro - dilynwch y trac cerbyd trwy'r coed. Gweler y panel gwybodaeth ger y fynedfa.

Coed Aber Artro - follow the old carriage track through the woods. See the information board near the entrance.

F



Coeden Briodas - dyma ddwy goeden- onnen a ffawydden sydd wedi cyddyfu gan wau o gwmpas ei gilydd fel dau gariad.

Marriage Tree - two trees - an ash and a beech have grown together entwined like two lovers. The scientific term is "inosculation".

Llwybro

Walking

Llanbedr



3

Capeli a Choedlannau Chapels & Woodlands

Taith gymhedrol yn cychwyn yn y pentref ac yn teithio trwy goedwigoedd hynafol gan ymweld a rai o gapeli'r fro ac yn codi i borfa fras ar lwyfandir gyda golyfeydd godidog. Ceir opsiwn i gerdded o gwmpas rhai o'r coedlannau dynodedig os yw amser yn caniatáu.

A moderate walk, starting in the village this route passes through ancient forests, visits some of the area's chapels and rises to a high plateau with its rough pasture and open views. If time permits, there is the option to walk around some of the named woodlands.



Cyngor Cymuned Llanbedr Community Council
www.llanbedr.com



3

Capeli a Choedlannau Chapels & Woodlands



Llwybr
Route



Llwybr Amgen
Alternative Route

Pellter: 3.25 milltir

Gradd: Cymedrol

Arwyneb: Ffordd, Llwybr Cyhoeddus a
Llwybr Caniataol. Rhannau Serth.
Camfeydd.

Amser: 1.5 awr

Distance: 3.25 miles

Grade: Moderate

Surface: Road, Public Footpath &
Permissive Path. Steep Sections. Stiles.

Time: 1.5 hours

Allwedd / Key



Parcio
Parking



Toileddau
Toilets



Picnic
Picnic



Golygfan
Viewpoint



Bwrdd gwybodaeth
Information board



Hawl tramwyo
Right of way



Ystlum Pedol Lleiaf
Lesser Horseshoe Bat



G Pont Glyn Artro - ger y bont gerrig gadarn hon mae Afonydd Artro a Nantcol yn ymuno cyn rhuthro i lawr y cwm i Lanbedr. Ar draws yr afon gwelir plasty Aber Artro a adeiladwyd ym 1910 mewn arddull Celf a Chrefft. Amgylchynnir a gerddi addurniadol eang.

Pont Glyn Artro - near this sturdy stone bridge the rivers Artro and Nantcol meet before rushing on down the valley to Llanbedr. Opposite can be seen Aber Artro Hall built in 1910 in the Arts and Crafts style. The house is surrounded by extensive ornamental gardens.

H Capel Salem - saif y capel bach Bedyddwyr yma filltir i fyny'r afon o Lanbedr. Mae'n dyddio o 1850 ac wedi'i restru gradd II. Anfarwolwyd yn y llun 'Salem' gan Curnow Vosper ym 1908 pan ei brynwyd gan y Brodyr Lever i'w ddefnyddio i farchnata Sebon 'Sunlight'.

Salem Chapel - this Baptist chapel is about a mile up river from Llanbedr village, built in 1850 and grade II listed. Immortalized in Sidney Curnow Vosper's famous painting 'Salem' of 1908, subsequently purchased by Lever Brothers it was used for marketing Sunlight soap.



Llwybrau **LLANBEDR** Paths